Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 5 Medi 2024

Rhif Union: 01824 712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 11 MEDI 2024** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu ag unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 9 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2024 (copi ynghlwm).

**5 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2024/25** (Tudalennau 15 - 18)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm) ar flaenoriaethau'r Adain Drwyddedu ynghyd â'r rhaglen waith ddiwygiedig.

**RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod tra bydd yr eitemau busnes canlynol yn cael eu hystyried oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym Mharagraff 12 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf) yn cael ei datgelu.

**6 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 507343** (Tudalennau 19 - 48)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau adolygu trwydded cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat mewn perthynas â Gyrrwr rhif 507343.

**9.45 am – 10.30 am**

**7 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 577925** (Tudalennau 49 - 68)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais am drwydded cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 577925.

**10.30 am – 11.30 am**

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Bobby Feeley (Cadeirydd)

Hugh Carson Irving (Is-Gadeirydd)

Joan Butterfield
Ellie Chard
Gwyneth Ellis
Alan James
Brian Jones

Delyth Jones
Paul Keddie
James May
Andrea Tomlin

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
# GWEITHDREFN ER MWYN PENDERFYNU AR GEISIADAU AM DRWYDDEDAU GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT AC ADOLYGU GYRWYR TRWYDDEDIG PRESENNOL

| CAM | DISGRIFIAD |
|---|---|
| 1. | Dylai'r Cadeirydd groesawu a chyflwyno'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i bawb sy'n bresennol. |
| 2. | Dylai'r Cyfreithiwr ofyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i gadarnhau ei fod/bod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r Pwyllgor. Os yw'r ymgeisydd yn ateb yn gadarnhaol, dylid symud ymlaen at gam 4. |
| 3. | Pe digwydd i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ddweud nad yw wedi derbyn yr adroddiad, yna dylid cyfarch y mater yn awr. Gallai'r Aelodau fod eisiau ystyried gohirio'r mater, am gyfnod byr, er mwyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gael cyfle i ddarllen yr adroddiad. |
| 4. | Dylai Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (neu gynrychiolydd ar ei ran) gyflwyno'r cais/adolygiad yn fras |
| 5. | Gofynnir i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gyflwyno ei achos/hachos<br><br>Gall yr ymgeisydd/deilydd y drwydded alw unrhyw dyst y mae'n eu dewis i gefnogi ei gais/chais, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Swyddogion Trwyddedu ynglŷn â hynny. |
| 6. | Gall Aelodau'r Pwyllgor holi'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ac /neu ei dystion ei thystion. |
| 7. | Gwahoddir swyddogion technegol i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau (Gorfodaeth Trwyddedu/Cymunedol, Tîm Cyswllt Cyntaf (y Gwasanaethau Cymdeithasol), Cludiant Ysgolion.) |
| 8. | Gall Aelodau'r Pwyllgor ac yna'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ofyn cwestiynau i'r swyddogion technegol |
| 9. | Gwahoddir yr ymgeisydd/deilydd y drwydded i gyflwyno sylwadau i gloi, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. |
| 10. | Gofynnir i'r canlynol adael y cyfarfod tra trafodir y cais/yr adolygiad gan yr Aelodau - yr ymgeisydd/deilydd y drwydded, pob trydydd parti, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, swyddogion technegol.<br><br>DS yr unig rai a ddylai fod yn weddill yw – Aelodau'r Pwyllgor, cyfieithydd, cynghorydd cyfreithiol y pwyllgor a'r sawl sy'n cymryd y cofnodion. |

| | |
|---|---|
| 11. | Dylai aelodau'r pwyllgor roi ystyriaeth i'r cais/adolygiad gan roi cyfrif am y dystiolaeth a glywyd. |
| 12. | Pe bai'n angenrheidiol i Aelodau'r Pwyllgor alw unrhyw barti yn eu holau i'w holi neu i ofyn iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth neu egluro rhywbeth, gwahoddir pawb a fydd wedi ymneilltuo o'r cyfarfod yn eu holau. Wedi i'r cwestiwn (cwestiynau) gael eu hateb gofynnir i bob trydydd parti ymneilltuo unwaith eto er mwyn i'r Aelodau gael ystyried y dystiolaeth i gyd. |
| 13. | Pan fo'r Aelodau wedi dod i benderfyniad, gelwir yr holl bartïon yn eu holau a chaiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded wybod beth yw penderfyniad yr Aelodau gan y Cadeirydd. |
| 14. | Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded o'r penderfyniad y daethpwyd iddo. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw amodau neu gosbau sydd wedi eu gosod. Os oes angen, dylai Cyfreithiwr y Cyngor gyflwyno eglurhad pellach ynglŷn â'r penderfyniad a'i oblygiadau i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded. |
| 15. | Os mai'r penderfyniad yw gwrthod neu os oes penderfyniad i atal neu ddirymu, dylai Cyfreithiwr y Cyngor roi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded am yr hawl i apelio i Lys Ynadon (bydd y llythyr penderfyniad hefyd yn cynnwys y manylion hyn). |
| 16. | Ar gyfer gyrrwr sydd eisoes wedi ei drwyddedu (a bod y drwydded wedi ei rhoi gan Sir Ddinbych), a bod penderfyniad y Pwyllgor yn ymwneud ag atal neu ddirymu'r drwydded bresennol, gall yr Aelodau wneud hynny naill ai o dan:<br><br>1. Adran 61 (2A) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.<br>2. Adran 61 (2B) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Daw'r penderfyniad hwn i rym YN SYTH ac ni ellir ei ddefnyddio ond pan fo'r sail dros atal/dirymu yn fater sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd.<br><br>Bydd y Cyfreithiwr yn esbonio goblygiadau'r penderfyniad wrth ddeilydd y drwydded. |
| 17. | Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei hysbysu o'r penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'r ymarferol bosibl. |
| 18. | Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei wahodd/gwahodd i drafod unrhyw fater y mae'n ansicr yn ei gylch gyda Swyddogion Trwyddedu yn dilyn y Pwyllgor. |

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |

| | |
|---|---|
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mercher, 5 Mehefin 2024 am 9.30 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Gwyneth Ellis, Bobby Feeley, Hugh Irving, Alan James, Brian Jones, Delyth Jones, Paul Keddie ac Andrea Tomlin

**Arsylwr –** y Cynghorydd James May

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfreithiwr (LB), Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd, Adfywio a Datblygu Economaidd (GR), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Uwch Swyddog Trwyddedu (NJ), a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ a SLW [Gweddarlledwr])

**1 YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorydd Ellie Chard

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd y Cynghorydd Joan Butterfield gysylltiad personol ag eitem rhif 7 ar y rhaglen – Tabl Prisiau a Thaliadau Cerbydau Hacni – gan ei bod yn defnyddio tacsis.

**3 PENODI CADEIRYDD**

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2024/25. Cynigodd y Cynghorydd Andrea Tomlin y dylid penodi'r Cynghorydd Bobby Feeley yn Gadeirydd, ac fe eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Hugh Irving. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd Bobby Feeley yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.*

**4 PENODI IS-GADEIRYDD**

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer swydd Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2024/25. Cynigiodd y Cynghorydd Brian Jones y dylid penodi'r Cynghorydd Hugh Irving yn Is-gadeirydd, ac fe eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Andrea Tomlin. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd Hugh Irving yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.*

**5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ar y pwynt hwn, dywedodd y Cadeirydd mai dyma gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Trwyddedu ers colli'r Cynghorydd Win Mullen-James, a thalodd deyrnged i'r Cynghorydd am ei blynyddoedd o wasanaeth ac ymroddiad, gan amlygu ei rhinweddau cadarnhaol. Byddai pawb yn gweld ei cholli.

## 6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2024.

**Materion yn Codi –** Tudalen 6: Rhaglen Waith y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2024 – diolchodd y Cynghorydd Andrea Tomlin i swyddogion am y sesiwn hyfforddi ar Weithdrefnau Arbennig (tyllu'r croen) a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2024. Fe'i cafodd yn addysgiadol a defnyddiol iawn ar gyfer ei rôl fel aelod o'r pwyllgor.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2024 a chadarnhau eu bod yn gywir.*

## 7 TABL PRISIAU A THALIADAU CERBYDAU HACNI

Cyflwynodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn diweddaru'r aelodau ar adolygiad y prisiau cyfredol ar gyfer cerbydau hacni (tacsis), a Thabl Prisiau arfaethedig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae'r prisiau presennol wedi bod yn destun adolygiad parhaus ers canol 2023. Yr oedd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i gynyddu'r prisiau presennol wedi darparu ymateb cymysg, ac ym mis Rhagfyr 2023 penderfynodd y Pwyllgor Trwyddedu gadw'r prisiau presennol tra bod cyfrifiannell brisiau yn cael ei datblygu. Ers hynny, ychydig iawn o ymateb a gafwyd gan y fasnach drwyddedig i gynorthwyo i fwydo ychwaneg o ddata i'r gyfrifiannell brisiau, a lle nodwyd bylchau yn y data dibynnwyd ar ddata arall er mwyn datblygu'r gyfrifiannell brisiau a dull gweithredu, a nodwyd yn fanwl yn yr adroddiad ynghyd â'r prisiau a luniwyd a thabl yn cymharu awdurdodau gogledd Cymru.

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried manylion yr adroddiad, gan gynnwys yr effaith ar y fasnach dacsis a defnyddwyr tacsis o ganlyniad i gynnydd yn y prisiau, a naill ai (i) cadw'r tabl prisiau presennol, neu (2) gynyddu'r prisiau yn unol â'r gyfrifiannell brisiau, yn amodol ar ymgynghoriad statudol. Pe bai'r aelodau'n cefnogi cynnydd yn y prisiau ac na chafwyd unrhyw wrthwynebiad yn dilyn ymgynghoriad, byddai'r cynnydd yn cael ei weithredu, ond byddai'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau a dderbynnid ger bron y Pwyllgor i'w hystyried. Byddai unrhyw dariff terfynol yn destun Penderfyniad Dirprwyedig Aelod Arweiniol.

Yn ystod y drafodaeth diolchodd yr aelodau i swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr a nodwyd y dull gweithredu pwyllog a chadarn a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r gyfrifiannell brisiau. Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad yn ofalus ynghyd â'r dewisiadau a oedd ar gael iddynt, a gofynnwyd cwestiynau amrywiol i'r swyddogion yn ystod y trafodaethau. Cyfeiriwyd yn benodol at ddiffyg awydd ymddangosiadol y fasnach dacsis i gynyddu'r prisiau a'r effaith ar ddefnyddwyr tacsis yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Crybwyllwyd amseru ac amlder adolygiadau prisiau, a pha un a

fyddai dull o gynyddu prisiau fesul cam yn rheolaidd yn osgoi cynnydd mawr yn y ffioedd ar ôl cyfnod hwy ai peidio. Nodwyd bod y tariff yn pennu'r pris uchaf posibl a ganiateir a gellid codi ffi is. Trafodwyd hefyd werth cynnal ymgynghoriad eang ar y cynnydd arfaethedig yn y prisiau ac ystyried y safbwyntiau hynny cyn gwneud penderfyniad terfynol.

Ymatebodd y swyddogion i gwestiynau a sylwadau'r aelodau fel a ganlyn –

- yr oedd ymgynghoriadau blaenorol â'r fasnach dacsis wedi darparu ymateb cymysg o blaid ac yn erbyn codi prisiau; ni chafwyd cawod o geisiadau am gynnydd yn y prisiau
- yr oedd lefel y gyrwyr trwyddedig newydd yn dal yn gyson â blynyddoedd blaenorol a nifer y gyrwyr trwyddedig yn parhau i fod yn weddol gyson
- yr oedd y gyfrifiannell brisiau'n darparu ffordd o gyfrifo cost gyfartalog gweithredu busnes tacsis ac yr oedd y cynnydd arfaethedig yn seiliedig ar fethodoleg fanwl
- manylwyd ar y tariff a luniwyd, fel y'i nodwyd yn yr adroddiad, a oedd yn rhoi'r pris uchaf posibl y gellid ei godi a byddai'n arwain at gynnydd o'r pris presennol, sef £6.00, i bris arfaethedig o £6.94, yn seiliedig ar siwrnai 2 filltir
- byddai'r tariff arfaethedig yn peri i Sir Ddinbych fod yr awdurdod drutaf yng ngogledd Cymru, ac yng nghanol y tabl cenedlaethol o brisiau tacsis
- ni wyddid beth oedd y dull a ddefnyddid gan awdurdodau lleol eraill gogledd Cymru i gyfrifo prisiau, a bu'n 1-4 blynedd ers i'r awdurdodau hynny adolygu eu prisiau ddiwethaf; yr oedd un awdurdod nad oedd wedi cynyddu ei brisiau ers 2010
- manylwyd ar yr ymgynghoriad eang, yn ogystal â gofynion statudol, pe bai'r dewis hwnnw yn cael ei gymeradwyo – byddai'n cynnwys ymgysylltu sylweddol gyda'r fasnach drwyddedig, cynghorau tref / cymuned a sefydliadau amrywiol ynghyd â phresenoldeb ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol yn gysylltiedig â phorth Sgwrs y Sir
- nid oedd amserlen statudol benodol i adolygu prisiau a oedd wedi eu cyflwyno'n flaenorol ar gais y fasnach dacsis neu aelodau, ac yr oedd cytundeb wedi bod i ailystyried y prisiau o fewn 12 mis yn dilyn yr adolygiad diwethaf
- nifer fechan o geisiadau am gynnydd yn y prisiau a gafwyd o gymharu â nifer y gyrwyr trwyddedig, ond yr oedd yn anodd canfod safbwyntiau'r fasnach dacsis yn ehangach; yn ogystal, dim ond nifer fechan oedd wedi cymryd rhan yn adolygiad y gyfrifiannell brisiau
- yr oedd yn debygol y byddai perchnogion tacsis yn adennill TAW ar danwydd, a defnyddiwyd y cyfraddau diweddaraf a gyhoeddwyd gan yr AA ar gyfer tanwydd wrth gyfrifo'r prisiau
- ni heriwyd y cyfrifiadau a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Brian Jones a oedd yn dangos y byddai prisiau arfaethedig ar gyfer siwrneiau pellach na 10 milltir yn gostwng o gymharu â'r tariff presennol, ac eglurwyd y defnyddid tariff 2 filltir fel mesur safonol yn nhablau cenedlaethol prisiau tacsis ac ni wnaed cyfrifiadau y tu hwnt i hynny; yr oedd y ffigurau'n dibynnu'n gyfan gwbl ar y gyfrifiannell brisiau
- cadarnhawyd bod gweithredwyr tacsis yn codi eu prisiau eu hunain, ac yr oedd y symiau ar gyfer yr un siwrnai yn amrywio, yn amodol ar y tariff uchaf posibl a bennwyd gan yr awdurdod.

Yn dilyn trafodaeth fanwl nid oedd y rhan fwyaf o'r aelodau yn meddwl bod awydd gan y fasnach dacsis i gynyddu prisiau. Awgrymwyd y byddai gwerth i ymgynghori ar gynnydd yn y prisiau er mwyn cael gwybod yn iawn beth yw'r safbwyntiau hynny, er mwyn eu hystyried ymhellach cyn gwneud penderfyniad terfynol. Amlygodd y swyddogion y byddai angen i'r aelodau gefnogi'r cynnydd arfaethedig yn y tabl prisiau

er mwyn cynnal ymgynghoriad arno oherwydd byddai'r ffioedd hynny'n dod i rym pe na dderbynnid unrhyw sylwadau i'r ymgynghoriad. Cadarnhawyd y byddai'r broses ymgynghori'n costio tua £1500-£2000.

Ar y pwynt hwn gofynnodd aelod o'r cyhoedd am gael siarad. Dywedodd y Cyfreithiwr nad oedd hawl gan aelod o'r cyhoedd i siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu – yr oedd hynny yn ôl disgresiwn y Cadeirydd. Yr oedd dadl deg wedi bod, ac, er mwyn bod yn deg, ni fyddai yna wrthfarn pe bai caniatâd yn cael ei roi. Gwrthododd y Cadeirydd y cais.

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a rhoi sylwadau fel y bo'r angen ynglŷn â'r dogfennau am y dull gweithredu sydd ynghlwm fel Atodiadau, estynnodd y Cadeirydd wahoddiad am gynnig. Cynigiodd y Cynghorydd Hugh Irving, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Joan Butterfield, bod y tabl prisiau presennol yn cael ei gadw, a bod swyddogion yn cael eu cyfarwyddo i baratoi adroddiad i'w gyflwyno ger bron y Pwyllgor Trwyddedu mewn deuddeng mis er mwyn adolygu'r sefyllfa.

Ar ôl cael ei roi i bleidlais –

***PENDERFYNWYD**, drwy fwyafrif, bod y Pwyllgor Trwyddedu yn –*

*(a) cadw'r tabl prisiau presennol*

*(b) cyfarwyddo'r swyddogion i baratoi adroddiad ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu i adolygu'r sefyllfa ymhen 12 mis.*

**8 ADOLYGU GOFYNION TRWYDDEDU CERBYDAU HYGYRCH I GADEIRIAU OLWYN**

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r aelodau adolygu'r gofynion presennol ar gyfer Cerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn a drwyddedir gan y Cyngor.

Cymeradwywyd Polisi presennol Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat gan y Pwyllgor Trwyddedu ym mis Rhagfyr 2016. Yr oedd yn cynnwys cyfyngiad oed, sef bod rhaid i holl gerbydau newydd y fflyd fod yn iau na 5 mlwydd oed, ac y byddai'n rhaid cael gwared ag unrhyw gerbyd a oedd yn cyrraedd 12 mlwydd oed. Yn dilyn nifer o estyniadau, byddai'r cyfyngiad yn dod i rym o'r diwedd ar 1 Gorffennaf 2024. Yr oedd gofyn i Gerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn fodloni'r un safonau ag unrhyw gerbyd arall, ond yr oedd y costau a oedd yn gysylltiedig â Cherbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn lawer uwch. Gan ystyried effaith y cyfyngiad oed ar argaeledd Cerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn, cefnogai Cludiant Ysgol Sir Ddinbych adolygu'r gofynion, ac yr oedd nifer fechan o'r fasnach dacsis hefyd wedi gofyn am adolygiad i'w gwneud yn fwy fforddiadwy i drwyddedu Cerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn.

Cyfeiriwyd at ganllawiau arferion gorau'r Adran Drafnidiaeth a pherthnasedd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar ddiwygio tacsis ynghyd â manylion ynglŷn ag oedran ac allyriadau cerbydau a Cherbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn a oedd wedi eu trwyddedu yn Sir Ddinbych. Oherwydd yr angen i fynd a'r afael â'r prinder Cerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn, gofynnwyd i'r aelodau ystyried a fyddai'n

briodol cael gwared â'r cyfyngiad oed ar gyfer y cerbydau hyn a chyflwyno gofyniad allyriadau gofynnol, ac a ddylid cynnal mwy o brofion ar gerbydau o ganlyniad. Argymhellodd y swyddogion gynnal ymarfer ymgynghori ar y dewisiadau canlynol ac adrodd am ganlyniadau'r ymgynghoriad mewn cyfarfod yn y dyfodol –

(a) peidio â gwneud unrhyw newid i'r gofynion trwyddedu presennol ar gyfer Cerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn sy'n golygu eu bod wedi'u trwyddedu ar yr un sail â cherbydau "arferol"
(b) ystyried dileu'r gofynion oedran presennol ar gyfer Cerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn a'u disodli gydag amod bod yn rhaid i bob cerbyd o'r fath gyrraedd safonau allyriadau Ewro 6 a chael prawf cydymffurfio ychwanegol bob blwyddyn unwaith y bydd y cerbyd yn 12 oed a phob blwyddyn y mae wedi'i drwyddedu wedi hynny, h.y. 3 phrawf y flwyddyn bob 4 mis
(c) ystyried (b) uchod heb unrhyw brofion cydymffurfio ychwanegol
(d) ystyried bod pob cais newydd am Drwydded Cerbyd Hacni yn hygyrch i gadeiriau olwyn.

Pwysleisiodd yr aelodau yr angen i sicrhau bod y safonau uchel presennol ar gyfer cerbydau trwyddedig yn cael eu cynnal, ac na ddylid cymryd unrhyw gamau a fyddai'n peryglu'r safonau hynny. Yn ogystal, yr oedd pryder na fyddai pob cerbyd yn destun yr un meini prawf trwyddedu. Fodd bynnag, cydnabuwyd pwysigrwydd mynd i'r afael â phrinder presennol darpariaeth sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn, a rhoddwyd ystyriaeth i'r dewisiadau a nodir yn yr adroddiad fel ffordd o gymell mwy o Gerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn i'r fflyd i fodloni'r galw, yn arbennig ar gyfer cludiant i'r ysgol, lle nad oedd anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu ar hyn o bryd. Parthed cynnal safonau diogelwch, eglurodd y swyddogion y gellid cysylltu'r cynnig i gael gwared â'r terfyn oedran a'r gofyniad i fodloni safonau Ewro 6 gyda threfn brofi fanylach ar gyfer y cerbydau hynny.

Credai'r Cadeirydd fod dadl wedi ei rhoi dros ystyried a ddylid rhoi safon uchel wahanol ar Gerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn o ystyried prinder y mathau hynny o gerbydau a'r costau sy'n gysylltiedig â hwy, a meddyliai y byddai'n fuddiol ymgynghori ar y dewisiadau ac ystyried yr ymatebion hynny cyn gwneud penderfyniad terfynol. Teimlai'r Cynghorydd Andrea Tomlin y dylid gwneud mwy i geisio awgrymiadau am ffyrdd eraill o fynd i'r afael â'r prinder presennol o Gerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn, yn hytrach na gwneud newidiadau i safonau presennol y polisi. Cadarnhaodd swyddogion y byddai blwch testun yn cael ei gynnwys mewn unrhyw ymgynghoriad, ac y gellid annog yr awgrymiadau hynny yn rhan o'r broses honno. Cytunodd pawb na ddylid cael unrhyw ostyngiad yn safonau cerbydau o ganlyniad i unrhyw newidiadau arfaethedig sydd i'w gwneud.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad ac yn awdurdodi swyddogion i gynnal ymgynghoriad gyda'r holl bartïon cysylltiedig ynghylch y dewisiadau canlynol ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r ymgynghoriad –*

*(a) peidio â gwneud unrhyw newid i'r gofynion trwyddedu presennol ar gyfer Cerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn, sy'n golygu eu bod wedi'u trwyddedu ar yr un sail â cherbydau "arferol";*

(b) *ystyried dileu'r gofynion oedran presennol ar gyfer Cerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn a'u disodli gydag amod bod yn rhaid i bob cerbyd o'r fath gyrraedd safonau allyriadau Ewro 6 a chael prawf cydymffurfio ychwanegol bob blwyddyn unwaith y bydd y cerbyd yn 12 oed a phob blwyddyn y mae wedi'i drwyddedu wedi hynny, h.y. 3 phrawf y flwyddyn bob 4 mis;*

(c) *ystyried (b) uchod heb unrhyw brawf cydymffurfio ychwanegol; ac*

(e) *ystyried bod pob cais newydd am Drwydded Cerbyd Hacni yn hygyrch i gadeiriau olwyn.*

## 9 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2024/25

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar flaenoriaethau'r Adain Drwyddedu ynghyd â rhaglen waith ddiwygiedig ar gyfer 2024/25.

Yr oedd blaenoriaethau'r Adain Drwyddedu yn adlewyrchu'r ddyletswydd a roddir ar yr Awdurdod mewn perthynas â'i gyfrifoldebau o ran ei swyddogaeth drwyddedu, a rheoleiddio, rheoli a gorfodi deiliaid trwyddedau yn effeithiol, yn ogystal ag ymrwymiad yr Awdurdod i greu cymunedau mwy diogel a datblygu'r economi. Yr oedd y rhaglen waith wedi ei drafftio gan ystyried polisïau a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor Trwyddedu a dyddiadau adolygu polisi, ynghyd ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol posibl a gynigid gan Lywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Ganolog. Oherwydd newidiadau sylweddol i strwythur staffio'r Adain Drwyddedu, a fyddai'n effeithio ar lwyth gwaith presennol y staff, yr oedd y blaenoriaethau i adolygu rhai o'r polisïau a gynlluniwyd wedi eu haildrefnu.

Gofynnodd y Cynghorydd Andrea Tomlin am fwy o wybodaeth ar effaith y strwythur a'r newidiadau o ran staff yn y Tîm Trwyddedu. Cadarnhaodd y Cyfreithiwr y byddai'n briodol trafod y mater y tu allan i'r cyfarfod gan y byddai unrhyw drafodaeth yn debygol o nodi unigolion penodol yn y tîm.

***PENDERFYNWYD*** –

(a) *nodi cynnwys yr adroddiad,*

(b) *cymeradwyo'r rhaglen waith ar gyfer 2024/25 fel yr amlinellir yn Atodiad A yr adroddiad.*

Ar y pwynt hwn dywedodd y Cadeirydd mai hwn fyddai cyfarfod olaf y Pwyllgor Trwyddedu i Reolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd cyn iddo ymddeol, a diolchodd iddo ar ran y Pwyllgor am ei waith caled dros y blynyddoedd a dymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol. Diolchodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd i'r aelodau am eu cefnogaeth, gan ddymuno'n dda iddynt ar gyfer y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.50am.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 11 Medi 2024 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Trwyddedu<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706433 |
| **TESTUN:** | Rhaglen Waith 2024/25 |

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.2 Rhoi gwybod i'r Aelodau am flaenoriaethau'r Adain Drwyddedu, ynghyd â diweddariad ar y rhaglen waith y cytunwyd arni ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2024/25.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae blaenoriaethau'r Adain Drwyddedu'n adlewyrchu'r ddyletswydd a roddir ar yr Awdurdod mewn perthynas â'i gyfrifoldebau o ran ei swyddogaeth drwyddedu, a rheoleiddio, rheoli a gorfodi deiliaid trwydded yn effeithiol, yn ogystal ag ymrwymiad yr Awdurdod i greu cymunedau mwy diogel a datblygu'r economi.

2.2 Mae Rhaglen Waith arfaethedig ynghlwm, yn Atodiad 1, i'r Aelodau ei hystyried a'i chymeradwyo.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIR

3.1 Wrth ddrafftio'r Rhaglen Waith, mae Swyddogion wedi ystyried y polisïau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Trwyddedu a dyddiadau adolygu'r polisïau hynny ynghyd ag unrhyw newid deddfwriaethol posibl a gynigir gan Lywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Ganolog.

3.2 Roedd yr eitemau canlynol wedi'u trefnu i'w hystyried gan yr Aelodau yn y cyfarfod hwn, ond oherwydd sawl rheswm gwahanol maent wedi'u tynnu neu eu haildrefnu yn awr:

i. **Tariff Cerbydau Hacni** – trefnwyd adroddiad i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau yn dilyn adolygiad o'r gyfrifiannell methodoleg, ond yn y cyfarfod diwethaf ym mis Mehefin 2024 bu i'r Aelodau benderfynu y byddai'r tariff presennol ar gyfer cerbydau hacni yn aros yr un fath a bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau ym mis Mehefin 2025.

ii. **Gweithdrefnau Arbennig** - trefnwyd adroddiad diweddaru yn egluro'r ddeddfwriaeth newydd hefyd, ond nid oes unrhyw beth i'w adrodd ar hyn o bryd ers y diweddariad diwethaf.

iii. **Cerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn** - roedd adroddiad pellach i'w gyflwyno i'r Aelodau i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn canlyniadau'r ymgynghoriad gyda'r deiliaid trwydded. Fodd bynnag, newydd ddechrau y mae'r ymgynghoriad felly cynigir bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn gynnar y flwyddyn nesaf ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad.

3.3 Mae'r Rhaglen Waith ddiwygiedig yn Atodiad A ac yn cynnwys y materion uchod.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Argymhellir bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad, ac

4.2 Argymhellir ymhellach bod yr Aelodau'n ystyried ac yn cymeradwyo'r Rhaglen Waith ddiwygiedig y manylir arni yn Atodiad A ar gyfer 2024/25.

**Atodiad A**

**Pwyllgor Trwyddedu**

**Rhaglen Waith 2024/25**

| Dyddiad y Pwyllgor | Adroddiad | Sylw |
|---|---|---|
| **4 Rhagfyr 2024** | Hyfforddiant Aelodau | Sesiwn hyfforddiant ar ddiweddariadau i ddeddfwriaeth a hyfforddiant diweddaru |
| **4 Mawrth 2025** | Gofynion trwyddedu cerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn | Diweddaru'r Aelodau yn dilyn adolygiad ac ymgynghoriad |
| **3 Mehefin 2025** | Tariff Cerbyd Hacni | Adolygu'r prisiau cyfredol gan ddefnyddio'r gyfrifiannell fethodoleg |
| **10 Medi 2025** | Adolygu Polisi ac Amodau Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat | Adolygu’r polisi presennol |
| | Adolygu Polisi Eithrio Platiau Cerbydau Hurio Preifat | Adolygu’r polisi presennol |
| | Adolygiad o Bolisi Defnydd Arfaethedig Cerbydau Hacni | Adolygu’r polisi presennol |
| SYLWER – mae’n bosibl y bydd rhaglen waith y Pwyllgor yn newid yn sgil materion brys yn ystod y flwyddyn. | | |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag